

## City & Guilds Tystysgrif mewn Asesu Llwyddiant Galwedigaethol



### Yn gryno

Mae'r cymwysterau hyn ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn asesu neu sy'n edrych i weithio yn y maes asesu a sicrhau ansawdd mewnol. Mae'r cymwysterau hyn yn agored i bobl sy'n cynnal asesiadau a sicrwydd ansawdd yn y rhan fwyaf o amgylcheddau dysgu, gan gynnwys AB, Addysg Barhaus i Oedolion, Cyflogwyr a'r Trydydd Sector. Maent wedi'u cynllunio ar gyfer unrhyw un sy'n asesu ac yn cynnal sicrwydd ansawdd ym mhob sector galwedigaethol, dysgu achrededig, dysgu heb ei achredu (e.e. lle mae perfformiad yn cael ei asesu ond lle nad yw'r dysgwr yn ymgymryd â chymhwyster). Mae'r cymhwyster hwn wedi'i fwriadu ar gyfer y rhai sy'n asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith a sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth alwedigaethol mewn amgylcheddau ar wahân i'r gweithle (er enghraifft mewn gweithdy, ystafell ddsbarth neu amgylchedd hyfforddi arall).

### Dyma'r cwrs i chi os...

Ar gyfer ymarferwyr sy'n asesu arddangosiad o gymhwysedd mewn amgylchedd gwaith gan ddefnyddio'r dulliau asesu canlynol: arsylwi, archwilio cynhyrchion gwaith, cwestiynu llafar a thrafod, defnyddio eraill (e.e. tystion), datganiadau dysgwyr a Chydnabyddiaeth o Ddysgu



## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Blaenorol (RPL) a hefyd asesu gwybodaeth a/neu sgiliau mewn meysydd pwnc sy'n gysylltiedig â galwedigaeth sy'n defnyddio'r dulliau asesu canlynol: asesiadau mewn amgylcheddau efelychiadol, profion sgiliau, cwestiynau llafar ac ysgrifenedig, aseiniadau, prosiectau, astudiaethau achos ac RPL. Gall hyn ddigwydd mewn gweithdai hyfforddi, ystafelloedd dosbarth neu amgylcheddau dysgu eraill.

### Beth fyddaf yn ei wneud?

Gall dysgwyr ddisgwyl ymdrin ag ystod o ddamcaniaethau, polisiau a gweithdrefnau sydd wedi'u cynllunio i sicrhau egwyddorion asesu cadarn. Mae'r unedau'n cynnwys:

- Deall egwyddorion ac arferion asesu
- Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith
- Asesu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth alwedigaethol

### Gwybodaeth Ychwanegol

Cyflwynir y cymhwyster hwn yn y gweithle ac nid ar gampws i unigolion ei fynychu. Cytunir ar ddyddiadau darparu ymlaen llaw gyda chi a'ch cyflogwr.

Bydd dysgwyr yn ymgymryd ag un uned theori sy'n edrych ar eu gwybodaeth am egwyddorion ac arferion asesu a dwy uned ymarferol sy'n ymdrin â pha mor dda y maent yn asesu. Fel arfer, mae hyn yn gofyn am chwe chyfarfod gyda'ch aseswr a gall gymryd 3 i 6 mis i'w gwblhau (gall dysgwyr ei gwblhau yn ôl eu pwysau eu hunain). Bydd dyfynbris ffurfiol yn cael ei baratoi unwaith y byddwn yn deall eich anghenion hyfforddi, ond fel canllaw, rydym yn codi £1,225 y pen.

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

